The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol
Temple Quay House
2 Y Sgwâr
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau Cwsmeriaid: 0303 444 5000
e-bost: awelymor@planninginspectorate.gov.uk

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010112

Dyddiad: 11 Tachwedd 2022

Annwyl Syr/ Madam

**Deddf Cynllunio 2008 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 – Rheol 13 a Rheol 16**

**Cais gan Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr**

**Hysbysiad o wrandawiadau ac Archwiliad Safle â Chwmni**

Rydym yn ysgrifennu at yr holl Bartïon â Buddiant a Phersonau eraill i roi hysbysiad am ddyddiadau, amserau a lleoliadau gwrandawiadau sydd i ddod, a fydd yn cael eu cynnal ar 7 ac 8 Rhagfyr 2022. Rydym yn ysgrifennu hefyd i roi hysbysiad o'r dyddiad, amser a'r man cyfarfod ar gyfer yr Archwiliad Safle â Chwmni ar 6 Rhagfyr 2022. Mae manylion pwysig ynglŷn â'r ddau wedi'u hamlinellu yn Atodiad A, Atodiad B ac Atodiad C i'r llythyr hwn.

**Gwrandawiadau**

Fel yr amlinellwyd yn Amserlen yr Archwiliad a atodwyd at ein llythyr Rheol 8 dyddiedig 27 Medi 2022, gofynnwyd i'r Partïon hynny â Buddiant sy'n dymuno siarad mewn Gwrandawiad Llawr Agored pellach neu mewn Gwrandawiad Caffaeliad Gorfodol hysbysu'r Arolygiaeth Gynllunio erbyn 24 Hydref 2022 (Terfyn Amser 1).

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau penodol gan Berson yr Effeithir arno sydd i'w glywed mewn Gwrandawiad Caffaeliad Gorfodol na chan bartïon sy'n dymuno siarad mewn Gwrandawiad Llawr Agored, ac felly ni fydd y cyfryw wrandawiadau yn cael eu cynnal yn ystod yr wythnos hon. Fodd bynnag, rydym wedi penderfynu cynnal gwrandawiadau ar faterion penodol. Mae manylion y gwrandawiadau hyn a'r trefniadau ar eu cyfer wedi'u hamlinellu yn Atodiad A.

Cynhelir y gwrandawiadau fel digwyddiadau cyfunol. Mae hyn yn golygu y byddant yn cael eu cynnal fel digwyddiadau rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams yn ogystal â digwyddiadau ffisegol mynychu'n 'bersonol'. Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i ni a ydych yn bwriadu mynychu unrhyw un o'r gwrandawiadau, yn bersonol neu'n rhithwir (hyd yn oed os nad ydych yn dymuno siarad) ddim hwyrach na **Therfyn Amser 3, 23 Tachwedd 2022.** Byddai o gymorth i ni hefyd pe gallech hysbysu Tîm Achos yr Arolygiaeth Gynllunio am unrhyw ofynion arbennig a allai fod gennych (e.e. mynediad anabl, dolen glywed ac ati).

Bydd agenda ar gyfer pob un o'r gwrandawiadau yn cael ei chyhoeddi ar ein gwefan o leiaf bum diwrnod gwaith cyn y digwyddiadau.

**Archwiliad Safle â Chwmni**

Fel yr amlinellwyd yn Amserlen yr Archwiliad a atodwyd at ein llythyr Rheol 8, gofynnwyd i'r Partïon hynny â Buddiant sy'n dymuno mynychu'r Archwiliad Safle â Chwmni hysbysu'r Arolygiaeth Gynllunio erbyn Terfyn Amser 1.

Mae capasiti ar y bws mini a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr Archwiliad Safle â Chwmni yn gwbl gyfyngedig. Rhaid rhoi blaenoriaeth i bresenoldeb yr Arolygiaeth Gynllunio, yr Ymgeisydd, awdurdodau lleol a Phartïon Statudol perthnasol. Cysylltir ag unrhyw Bartïon â Buddiant eraill a fynegodd ddymuniad i fynychu'r Archwiliad Safle â Chwmni hyd ei ddiwedd gan Dîm Achos yr Arolygiaeth Gynllunio i drafod yr opsiwn i'n cyfarfod ni mewn lleoliadau perthnasol yn ystod yr amserlen deithio.

Mae manylion pellach ar gyfer yr Archwiliad Safle â Chwmni wedi'u cynnwys yn Atodiad B. Mae'r amserlen deithio derfynol ar gyfer yr Archwiliad Safle â Chwmni wedi'i chyhoeddi ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol, ac mae ar gael yn Atodiad C i'r llythyr hwn hefyd.

Sylwer, os nad yw unrhyw rai o'r digwyddiadau sydd wedi'u trefnu yn Atodiad A neu Atodiad B yn ofynnol mwyach, bydd hysbysiad rhesymol yn cael ei roi i bartïon o'n penderfyniad i'w canslo.

Os oes unrhyw ymholiadau pellach gennych, cysylltwch â'r Tîm Achos gan ddefnyddio'r manylion ar frig y llythyr hwn.

Yr eiddoch yn gywir

*Jon Hockley*

**Aelod Arweiniol yr Awdurdod Archwilio**

**Atodiadau**

**A** Hysbysiad o Wrandawiadau ac Archwiliad Safle â Chwmni

**B** Manylion yr Archwiliad Safle â Chwmni

**C** Amserlen Deithio'r Archwiliad Safle â Chwmni

**Hysbysiad o Wrandawiadau ac Ymweliad Safle â Chwmni**

Bydd yr Ymweliad Safle â Chwmni a Gwrandawiadau pellach ar Faterion Penodol yn cael eu cynnal fel a ganlyn:

<table>
<tr><th>Dyddiad</th><th>Gwrandawiad</th><th>Amser Dechrau</th><th>Lleoliad</th><th>Mynediad a pharcio</th></tr>
<tr><td>Dydd Mawrth 6 Rhagfyr 2022</td><td>Archwiliad Safle â Chwmni</td><td>9:00am</td><td>Amrywiol – gweler Atodiad B a C</td><td>Gweler Atodiad B a C</td></tr>
<tr><td>Dydd Mercher 7 Rhagfyr 2022</td><td>Gwrandawiad Materion Penodol (ISH2) ar faterion morwedd a materion cysylltiedig</td><td>10.00am<br><br>Seddau ar gael/ Cynhadledd Trefniadau o: 09:15am</td><td>Digwyddiad rhithwir (Microsoft Teams) ac Ystafell Hall A, Venue Cymru, Promenâd, Llandudno LL30 1BB</td><td rowspan="2">Mae Venue Cymru yn gweithredu maes parcio Talu ac Arddangos yng nghefn yr adeilad, gyda baeau parcio dynodedig i bobl anabl i’r chwith o’r brif fynedfa. Mae lle parcio ar gael ar y Promenâd hefyd, sef trefn Talu a Pharcio hyd nes 4pm, ac ar ôl hynny mae’n ddi-dâl.</td></tr>
<tr><td>Dydd Iau 8 Rhagfyr 2022</td><td>Gwrandawiad Materion Penodol (ISH3) ar safle’r is-orsaf arfaethedig</td><td>10.00am<br><br>Seddau ar gael/ Cynhadledd Trefniadau o: 09:15am</td><td>Digwyddiad rhithwir (Microsoft Teams) ac Ystafell Hall A, Venue Cymru, Promenâd, Llandudno LL30 1BB</td></tr>
</table>

Mae gwybodaeth am wrandawiadau wedi’i chynnwys yn ‘Nodyn Cyngor 8.5: Yr archwiliad: gwrandawiadau ac archwiliadau safle’ yr Arolygiaeth Gynllunio.

**Os ydych yn dymuno mynychu unrhyw un o’r gwrandawiadau hyn, cysylltwch â’r Tîm Achos gan ddefnyddio’r manylion ar frig y llythyr hwn ddim hwyrach na Therfyn Amser 3, Dydd Mercher 23 Tachwedd 2022**, gan ddatgan:

• p’un a ydych yn dymuno siarad yn y gwrandawiad, a’r materion y dymunwch wneud sylwadau llafar yn eu cylch; a chan

• ein hysbysu ni am unrhyw anghenion arbennig a allai fod gennych (e.e. mynediad i’r anabl, dolen glywed ac ati).

Bydd seddi ar gael yn y lleoliad 45 munud cyn dechrau'r gwrandawiad er mwyn gallu dechrau'n brydlon. I'r rheiny sy'n ymuno'n rhithwir, bydd cynhadledd trefniadau yn dechrau ar yr un pryd (9.15am). Bydd y gwrandawiad yn gorffen cyn gynted ag y bydd yr Awdurdod Archwilio yn barnu bod pawb sy'n bresennol wedi cael dweud eu dweud, ac yr ymdriniwyd â'r holl faterion. Gan ddibynnu ar y niferoedd sy'n dymuno siarad yn y gwrandawiad, gall fod yn angenrheidiol i'r Awdurdod Archwilio gyfyngu'r amser a ddyrennir i bob siaradwr.

**Agendâu gwrandawiadau**

Sylwer, ar gyfer Gwrandawiadau Materion Penodol yn gyffredinol, y bydd yr Awdurdod Archwilio yn amcanu i gyhoeddi agenda ddrafft fanwl ar wefan y prosiect o leiaf bum niwrnod gwaith cyn dyddiad y gwrandawiad. Fodd bynnag, gall yr agenda ei hun ar ddiwrnod pob gwrandawiad gael ei newid yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Archwilio.

**Gwybodaeth gyffredinol**

Gwahoddir yr holl Bartïon â Buddiant i fynychu'r gwrandawiadau, ac mae gan bob Parti â Buddiant hawl i wneud sylwadau llafar yn y gwrandawiad.

Gall cyfranogwyr gael cynrychiolaeth gyfreithiol os dymunant, ond bydd y gwrandawiad yn cael ei gynnal i sicrhau nad yw cynrychiolaeth gyfreithiol yn ofynnol. Mae arweiniad o dan Ddeddf Cynllunio 2008 (PA2008) a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 yn amodi mai'r Awdurdod Archwilio fydd yn holi, profi ac asesu'r dystiolaeth drwy holi'n uniongyrchol yr unigolion sy'n gwneud sylwadau llafar mewn gwrandawiadau. Bydd yr holi yn y gwrandawiad yn cael ei arwain gan yr Awdurdod Archwilio.

**Manylion yr Archwiliad Safle â Chwmni (ASI)**

| Dyddiad | Gwrandawiad | Amser Dechrau | Man Cyfarfod |
|---|---|---|---|
| Dydd Mawrth 6 Rhagfyr 2022 | Archwiliad Safle â Chwmni | 9:00am | Clwb Golff y Rhyl, Ffordd Arfordir Y Rhyl, Y Rhyl, LL18 3RE |

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau adeg Terfyn Amser 1 ar yr amserlen deithio ar gyfer yr Archwiliad Safle â Chwmni a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd adeg Terfyn Amser Gweithdrefnol A. Fodd bynnag, croesawyd y sylw gan Rostons ar ran Mrs H a Mr R Proffitt [REP1-106] yn gwahodd yr Awdurdod Archwilio yn garedig i weld eu tir, a hoffai'r Awdurdod Archwilio ymweld â'r safle fel rhan o'r amserlen deithio.

Yn amodol ar yr ymweliad ychwanegol uchod, mae'r Awdurdod Archwilio'n cytuno gyda'r amserlen deithio a gynigiwyd gan yr Ymgeisydd adeg Terfyn Amser Gweithdrefnol A o eitemau 1 i 8 (Gwaith 6A i Waith 40). O ran awgrymiadau eraill gan yr Ymgeisydd o dan eitemau 9 i 13 (golygon yn ystod y nos, Golygfannau SLVIA 4, 13, 22, 60 a 61), bydd yr Awdurdod Archwilio'n ymweld â nhw fel rhan o archwiliad safle heb gwmni (USI) sydd i'w gynnal. Ar gyfer awgrymiadau 14 a 15 yr Apelydd (Cestyll Biwmares a Chonwy), er ei fod yn cydnabod nad oedd yr holl olygfannau o'r Cestyll yn hygyrch, mae'r Awdurdod Archwilio o'r farn ei fod wedi gweld yr hyn sydd angen iddo ei weld o'r golygfannau hyn yn ei ail Ymweliad Safle Heb Gwmni.

**Sylwer nad yw archwiliadau safle'r Awdurdod Archwilio yn gyfle i roi unrhyw sylwadau llafar ar y prosiect na thrafod tystiolaeth. Mae'n gyfle i'r Awdurdod Archwilio edrych ar y nodweddion ffisegol y gellir eu gweld ar y safleoedd, neu o'r safleoedd. Gellir gwahodd cyfranogwyr gan yr Awdurdod Archwilio i nodi nodweddion penodol neu safleoedd o ddiddordeb.**

**Ymuno â'r archwiliad safle**

Dylai unrhyw un sy'n dymuno mynychu'r Archwiliad Safle â Chwmni fod wedi ein hysbysu ni'n barod o'u bwriad adeg Terfyn Amser 1 ar 24 Hydref 2022. Derbyniwyd sylwadau yn hyn o beth gan Cyfoeth Naturiol Cymru a chan Richard Fearnall ar ran GBL and IB Kerfoot Discretionary Trust. Oherwydd natur breifat llawer o dir y Gorchymyn, gellir ond caniatáu mynediad i nifer gyfyngedig o bobl ar unrhyw un adeg. Os nad ydych eisoes wedi ein hysbysu ni o'ch dymuniad i fynychu, cysylltwch â'r Tîm Achos drwy'r manylion uchod. Fodd bynnag, sylwer ei bod yn bosibl na fydd eich cais yn cael ei ganiatáu yn y cam hwn.

Mae'n rhaid i fynychwyr gyrraedd y man cyfarfod erbyn 9.00am i dderbyn briff diogelwch gorfodol gan yr Ymgeisydd a sylwadau cyflwyniadol gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Bydd yr Archwiliad Safle â Chwmni yn dechrau cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r datganiadau hyn gael eu gwneud. Os yw amodau'r tywydd yn gwneud yr archwiliad yn anymarferol, hysbysir y mynychwyr gan y Tîm Achos cyn gynted ag y bo modd.

Gall yr archwiliad gynnwys rhywfaint o waith cerdded ar dir anwastad neu wlyb. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio'n cynghori mynychwyr felly i wisgo dillad sy'n briodol ar gyfer y tywydd, ac esgidiau cryf.

**Atodiad C**

## Amserlen Deithio'r Archwiliad Safle â Chwmni (ASI)

| Lleoliad | Man Stopio | Ardal Waith | Amser | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Clwb Golff y Rhyl, Ffordd Arfordir Y Rhyl, Y Rhyl, LL18 3RE | N/A | 09:00 | Rhaid i fynychwyr gyrraedd Clwb Golff y Rhyl erbyn 9.00yb i dderbyn sesiwn briffio diogelwch gorfodol gan yr Ymgeisydd a sylwadau rhagarweiniol gan yr Arolygiaeth Gynllunio. |
| 2 | **Cyfansoddyn Tirfall Adeiladu Dros Dro (TCC) (Opsiwn Safle 1)**<br><br>Ffordd Garford | Gwaith 6A | 09:15 | I weld y lleoliad a'i agosrwydd at dderbynyddion preswyl a Gwaith Amddiffyn Arfordir Dwyrain y Rhyl. |
| 3 | **Cyfansoddyn Tirfall Adeiladu Dros Dro (Opsiwn Safle 2)**<br><br>Rhodfa Ferguson a Chanolfan Bowlio Gogledd Cymru | Gwaith 7A | 10:00 | I weld y lleoliad a'i agosrwydd at eiddo masnachol ar Draeth Ffrith ac o fewn 'man agored'. |
| 4 | **Lleoliad Trawsnewidiad Bae ar y Cyd**<br><br>Tir i'r de o'r rheilffordd ac i'r gogledd o Ffordd Dyserth | Gwaith 8A | 10:45 | Cwrdd at lwybr y fferm ger Fferm Rhydorddwy, Heol Dyserth.<br><br>Gofynnir i unrhyw rai sy'n mynychu cymryd rhagofalon ychwanegol wrth barcio a theithio i'r lleoliad hwn oherwydd cyfluniad ffordd beryglus yn yr ardal hon. |


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | I weld y lleoliad mewn perthynas â derbynyddion posibl. |
| 5 | **Tir i'r de o Ffordd Dyserth a Y Fflach** | Gwaith 11 (rhan) | 11:15 | Cwrdd ar drac y fferm yn uniongyrchol i'r gorllewin o'r man croesi cebl i adolygu Coridor Cebl Allforio (ECC) ac ardaloedd lliniaru ecolegol cysylltiedig.<br><br>Gofynnir i unrhyw rai sy'n mynychu cymryd rhagofalon ychwanegol wrth barcio a theithio i'r lleoliad hwn oherwydd cyfluniad ffordd beryglus yn yr ardal hon.<br><br>I weld y lleoliad mewn perthynas â derbynyddion posibl. |
| 6 | **Egwyl ginio Sainsburys yn Rhuddlan** | N/A | 12:00 | Sainsburys Ffordd Rhyl, Rhuddlan, Rhyl LL18 2TJ |
| 7 | **Fferm, Ffordd Bodelwyddan**<br><br>Tir i'r gogledd o Ffordd Bodelwyddan | Gwaith 22A, 21 (rhan), a 41 (rhan) | 13:00 | I adolygu'r ECC a TCC ac i gynnwys ymweliad fel y gofynnwyd amdano gan Rostons ar ran Mrs H a Mr R Proffitt.<br><br>I weld y lleoliad mewn perthynas â derbynyddion posibl. |
| 8 | **Croesfan yr A55**<br><br>Tir i'r gogledd o'r A55 | Gwaith 23 (rhan) | 13:45 | Cwrdd at fynedfa Tyddan Isaf, Ffordd Llanelwy.<br><br>Gallwch barcio ar y ffordd ymuno oddi ar Ffordd William Morgan. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | I weld y lleoliad mewn perthynas â derbynyddion posibl. |
| 9 | **Safle Is-orsaf**<br><br>Tir yn Faenol Bropor ac i'r gogledd o Ffordd Glascoed | Gwaith 31A | 14:30 | Cwrdd at fynedfa Faenol Bropor, Heol Llanelwy.<br><br>Gallwch barcio ar y ffordd ymuno oddi ar Ffordd William Morgan.<br><br>I weld y lleoliad mewn perthynas â derbynyddion posibl, gan gynnwys Faenol Broper, derbynyddion preswyl, a Chastell Bodelwyddan. |
| 10 | **Pwynt Cysylltiad Is-orsaf y Grid Cenedlaethol**<br><br>Tir i'r de o Barc Busnes Llanelwy | Gwaith 40 | 15:30 | Parcio ar ffordd ddienw i'r de o Ffordd Glascoed, i'r gorllewin o Barc Busnes Llanelwy.<br><br>I weld y lleoliad mewn perthynas â derbynyddion posibl, ac ystyried llwybr arfaethedig y cebl ac is-orsaf y Grid Cenedlaethol. |
| 11 | Casgliad o'r amserlen archwiliad safle | N/A | 16:15 | |

Byddwch yn ymwybodol bod pob mynychwr wedi'u cadarnhau fod yn ofynnol i gymryd rhagofalon bioddiogelwch rhesymol cyn mynd i mewn i unrhyw dir amaethyddol. Mae'n hanfodol felly bod unrhyw fynychwyr yn cwrdd gyda'r Ymgeisydd yn y lleoliad cyfarfod dynodedig er mwyn sicrhau bod y rhagofalon gofynnol yn cael eu cymryd cyn parhau gyda'r archwiliad.

***Gellir gweld cynlluniau y lleoliadau arfaethedig yn ymateb yr Ymgeisydd i Derfyn Amser Gweithdrefnol A [PDA-002]***


DALCOUR MACLAREN




Site Plan

Scale: 1:10000

Location Plan




Key:

- Stopping Point
- Parking
- Access Route

Coords: 303,609 382,523

**Scheme Name:**
Awel y Môr Offshore Wind Farm

**Drawing Name:**
Information Plan

**Drawing No:**
197212_PLN_INFO_ASI_1.1


| | Date | Description |
|---|---|---|
| - | 10.11.2022 | First Issue |

| | |
|---|---|
| Drawn: | AL |
| Approved: | GE |
| Sheet No: | 1 of 4 |
| Sheet Size: | A3 |

Fferm Wynt Alltraeth
AWEL Y MÔR
Offshore Wind Farm

The information contained in this document is confidential and protected by copyright. The use, copying or disclosure to a third party, either wholly or in part, except with the written permission of, and in the manner prescribed by RWE Renewables UK Limited constitutes an infringement of copyright. Dalcour Maclaren does not warrant that this document is definitive nor free of error and does not accept liability for any loss caused or arising from reliance upon information provided herein. Although our best efforts have been made to ensure the accuracy of these plans, all measurements must be confirmed on site. BASED UPON THE ORDNANCE SURVEY MAP WITH THE SANCTION OF THE CONTROLLER OF H.M STATIONERY OFFICE. CROWN COPYRIGHT RESERVED. © OS LICENCE No. 100042124

Drawing Location: C:\Users\andrew.lambe\Dalcour Maclaren\Awel y Mor Offshore Wind Farm - Geomatics\02 Working Data\Information_Plans\2022-11-09\20221109_197212_PLN_INFO_PINS_Site_Visit.mxd





Site Plan

Scale bar: 0, 200, 400, 800, 1200, 1600, 2000, 2400, 2800 Metres

Scale: 1:10000

DALCOUR MACLAREN

Location Plan




**Key:**

- Stopping Point
- Parking
- Access Route

**Coords:** 303,202 380,291

**Scheme Name:** Awel y Môr Offshore Wind Farm

**Drawing Name:** Information Plan

**Drawing No:** 197212_PLN_INFO_ASI_1.2

| | Date | Description |
|---|---|---|
| - | 10.11.2022 | First Issue |

| | |
|---|---|
| Drawn: | AL |
| Approved: | GE |
| Sheet No: | 2 of 4 |
| Sheet Size: | A3 |


Fferm Wynt Alltraeth AWEL Y MÔR Offshore Wind Farm


The information contained in this document is confidential and protected by copyright. The use, copying or disclosure to a third party, either wholly or in part, except with the written permission of, and in the manner prescribed by RWE Renewables UK Limited constitutes an infringement of copyright. Dalcour Maclaren does not warrant that this document is definitive nor free of error and does not accept liability for any loss caused or arising from reliance upon information provided herein. Although our best efforts have been made to ensure the accuracy of these plans, all measurements must be confirmed on site. BASED UPON THE ORDNANCE SURVEY MAP WITH THE SANCTION OF THE CONTROLLER OF H.M STATIONERY OFFICE. CROWN COPYRIGHT RESERVED. © OS LICENCE No. 100042124

Drawing Location: C:\Users\andrew\ambel\Dalcour Maclaren\Awel y Mor Offshore Wind Farm - Geomatics\02 Working Data\Information_Plans\2022-11-09\20221109_197212_PLN_INFO_PINS_Site_Visit.mxd

DALCOUR MACLAREN

Location Plan




Key:

- Stopping Point
- Parking
- Access Route
- Highway Access Route

| | |
|---|---|
| Coords: | 301,371 375,938 |
| Scheme Name: | Awel y Môr Offshore Wind Farm |
| Drawing Name: | Information Plan |
| Drawing No: | 197212_PLN_INFO_ASI_1.3 |

| | Date | Description |
|---|---|---|
| - | 10.11.2022 | First Issue |

| | |
|---|---|
| Drawn: | AL |
| Approved: | GE |
| Sheet No: | 3 of 4 |
| Sheet Size: | A3 |

Fferm Wynt Alltraeth
AWEL Y MÔR
Offshore Wind Farm


The information contained in this document is confidential and protected by copyright. The use, copying or disclosure to a third party, either wholly or in part, except with the written permission of, and in the manner prescribed by RWE Renewables UK Limited constitutes an infringement of copyright. Dalcour Maclaren does not warrant that this document is definitive nor free of error and does not accept liability for any loss caused or arising from reliance upon information provided herein. Although our best efforts have been made to ensure the accuracy of these plans, all measurements must be confirmed on site. BASED UPON THE ORDNANCE SURVEY MAP WITH THE SANCTION OF THE CONTROLLER OF H.M STATIONERY OFFICE. CROWN COPYRIGHT RESERVED. © OS LICENCE No. 100042124

Site Plan

0 200 400 800 1200 1600 2000 2400 2800 Metres

Scale: 1:10000

Drawing Location: C:\Users\andrew.lambe\Dalcour Maclaren\Awel y Mor Offshore Wind Farm - Geomatics\02 Working Data\Information_Plans\2022-11-09\20221109_197212_PLN_INFO_PINS_Site_Visit.mxd





Site Plan

Scale: 1:10000

0 200 400 800 1200 1600 2000 2400 2800 Metres

**DALCOUR MACLAREN**

Location Plan




**Key:**

- Stopping Point
- Parking
- Access Route
- Highway Access Route

**Coords:** 301,122 374,463

**Scheme Name:**
Awel y Môr Offshore Wind Farm

**Drawing Name:**
Information Plan

**Drawing No:**
197212_PLN_INFO_ASI_1.4

| | Date | Description |
|---|---|---|
| - | 10.11.2022 | First Issue |

| | |
|---|---|
| **Drawn:** | AL |
| **Approved:** | GE |
| **Sheet No:** | 4 of 4 |
| **Sheet Size:** | A3 |

Fferm Wynt Alltraeth
AWEL Y MÔR
Offshore Wind Farm

The information contained in this document is confidential and protected by copyright. The use, copying or disclosure to a third party, either wholly or in part, except with the written permission of, and in the manner prescribed by RWE Renewables UK Limited constitutes an infringement of copyright. Dalcour Maclaren does not warrant that this document is definitive nor free of error and does not accept liability for any loss caused or arising from reliance upon information provided herein. Although our best efforts have been made to ensure the accuracy of these plans, all measurements must be confirmed on site. BASED UPON THE ORDNANCE SURVEY MAP WITH THE SANCTION OF THE CONTROLLER OF H.M STATIONERY OFFICE. CROWN COPYRIGHT RESERVED. © OS LICENCE No. 100042124

Drawing Location: C:\Users\andrew.lambe\Dalcour Maclaren\Awel y Mor Offshore Wind Farm - Geomatics\02 Working Data\Information_Plans\2022-11-09\20221109_197212_PLN_INFO_PINS_Site_Visit.mxd